



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales


Adroddiad dwy flynedd i'r Gweinidog Adnoddau Naturiol
**Diogelwch Cronfeydd Dŵr
yng Nghymru**

Am y cyfnod 1 Ebrill 2013 tan 31 Mawrth 2015

Cyfoeth Naturiol Cymru

1. Cyflwyniad	4
2. Annog a gorfodi diogelwch cronfeydd dŵr	6
3. Cronfeydd dŵr y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymrwyr ar eu cyfer	10
4. Gwybodaeth a data	11
5. Y ddwy flynedd nesaf	12
6. Crynodeb	13

Dosraniad cyforgronfeydd dŵr mawr yng Nghymru




1. Cyflwyniad

Ar 1 Ebrill 2013, penodwyd Cyfoeth Naturiol Cymru¹ yn awdurdod gyda'r dyletswydd o orfodi'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr yng Nghymru, gwaith oedd yn cael ei wneud cyn hynny gan Asiantaeth yr Amgylchedd ledled Cymru a Lloegr.

Mae Cymru'n enwog am ei chronfeydd dŵr sydd, gyda'i gilydd, yn dal mwy na 700 miliwn metr giwbig o ddŵr. Rydym yn sylweddoli y gallai'r strwythurau hyn, sydd dros 100 mlwydd oed ar gyfartaledd, fod yn berygl llifogydd i fwy na 220,000 o bobl ac i nifer o wasanaethau seilwaith megis ffyrdd, rheilffyrdd a chyfleustodau.

Rydym yn cael ein hatgoffa'n benodol eleni am drychineb enwog cronfa ddŵr Dolgarrog ym 1925 a laddodd 16 o bobl pan dorrodd argae'r gronfa gan ollwng dŵr a ddinistriodd adeiladau a gorlifo'r pentref. Fis Tachwedd 2015 bydd 90fed pen-blwydd y drychineb, a oedd yn anogaeth sylweddol i lywodraeth y dydd gyflwyno'r rheolau diogelwch cyntaf ar gyfer cronfeydd dŵr.



Ein diben fel yr awdurdod gorfodi yw rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru, ac i bobl Cymru, fod cyforganfeydd dŵr mawr² (h.y. cronfeydd mawr sy'n cadw dŵr uwchben

¹ Trosglwyddodd y Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 swyddogaethau statudol Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coediwgaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru a hefyd beth o waith Llywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru

² Cyforganfa fawr yw un sydd wedi'i dylunio i, neu sy'n gallu, dal 25,000 metr giwbig o ddŵr, neu fwy, uwchben lefel naturiol y tir cyfagos.

wyneb y ddaear) yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel i warchod pobl sy'n byw ac yn gweithio i lawr yr afon rhag llifogydd a allai fod yn drychinebus.

Hwn yw ein hadroddiad bob dwy flynedd cyntaf, am y cyfnod 1 Ebrill 2013 tan 31 Mawrth 2015.

Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, rydym wedi:

- sefydlu gwasanaeth gorfodi diogelwch newydd, i Gymru'n unig, ar gyfer cronfeydd dŵr
- nodi a rheoleiddio cronfeydd dŵr nad oedd wedi'u cofrestru o'r blaen
- cadw llygad barcud ar benodi peirianwyr sifil cymwys
- ceisio sicrhau fod mesurau diogelwch yn cael eu gweithredu, a
- gweld cynnydd yn nifer y cronfeydd dŵr sy'n cydymffurfio â'r gyfraith.

Rydym hefyd yn disgwyl newidiadau arwyddocaol i'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr pan weithredir Atodlen 4 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Rydym wedi dechrau paratoi ar gyfer hyn ac wedi dechrau hefyd ar y broses o godi ymwybyddiaeth gyda'r bobl sydd fwyaf tebyg o gael eu heffeithio gan y newidiadau.

2. Annog a gorfodi diogelwch cronfeydd dŵr

Deddf yw Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn benodol ar gyfer amddiffyn diogelwch y cyhoedd drwy fynnu fod cronfeydd dŵr yn cael eu hadeiladu, eu harolygu, eu harchwilio, eu cynnal ac, yn y pen draw, eu dymchwel, o dan arweiniad peirianwyr sifil cymwys. Ein bwriad o'r cychwyn cyntaf oedd sicrhau y cydymffurfir i'r eithaf â'r gyfraith hon.

Mae busnesau a phobl o dan bwysau ariannol cynyddol ac nid yw holl ofynion y ddeddf yn dylanwadu'n gyfartal ar ddiogelwch. I gydnabod hyn, rydym wedi mabwysiadu dull o asesu risg ar gyfer ein dyletswyddau rheolaethaol sy'n canolbwyntio ar yr hyn sydd fwyaf tebyg o effeithio ar ddiogelwch y cronfeydd ac sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch y cyhoedd.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd yna 224 o gyforgronfeydd dŵr mawr yng Nghymru, un ai'n weithredol, wedi'u gadael neu'n cael eu hadeiladu neu eu haddasu.

Cyforgronfeydd dŵr mawr newydd neu wedi'u haddasu

Rydym wedi cofnodi bod pum cronfa ddŵr yn cael eu hadeiladu neu eu haddasu ac wedi cadarnhau fod Peiriannydd Adeiladu wedi'u benodi'n gywir ar gyfer pob un³.

Mae'r 23 yn rhagor o gyforgronfeydd dŵr mawr ers i Asiantaeth yr Amgylchedd gyhoeddi ei adroddiad dwy flynedd ar gyfer 2011 – 2013. Canlyniad yw'r cynnydd hwn yn bennaf i'n harchwiliadau ni i asesu cronfeydd dŵr, a oedd eisoes wedi'u hadeiladu, a allai fod angen eu rheoleiddio ar ôl newid mewn deddfwriaeth. Daeth yn amlwg o'r ymchwiliadau fod rhai'n dal mwy na 25,000 metr ciwbig. Mae rhai ymgymerwyr⁴ hefyd wedi ein hysbyu eu hunain ac rydym hefyd wedi derbyn adroddiadau gan y proffesiwn peirianeg.

Ar ôl cofrestru'r cronfeydd ychwanegol hyn, roeddem yn sicrhau fod yr ymgymerwyr yn penodi'r peirianwyr cywir ac yn cynnal yr holl archwiliadau angenrheidiol.

Uchelbwyntiau 2013-15

23

yn fwy o gyforgronfeydd dŵr mawr

5

Cyforgronfa ddŵr mawr yn cael eu hadeiladu

18

O rai oedd eisoes wedi'u hadeiladu yn dod i gael eu rheoleiddio

100%

O gyforgronfeydd dŵr mawr yn cael eu harolygu a'u harchwilio

Nifer o gyforgronfeydd dŵr mawr

201

224

³ Mae Peiriannydd Adeiladu'n sicrhau fod cronfeydd dŵr yn cael eu dylunio, eu hadeiladu neu eu haddasu'n gywir ac yn ardystio eu bod wedi'u cwblhau yn foddhaol ac yn cael eu rhedeg yn effeithlon.

⁴ Yr ymgymerwr yw'r term cyfreithiol ar gyfer y person, pobl, cwmni neu sefydliad sy'n rhedeg neu'n rheoli cronfa ddŵr. Os nad oes unrhyw weithgaredd yn y gronfa, y perchennog yw'r ymgymerwr.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd pob cyforgronfa ddŵr fawr wedi'u harchwilio a Pheiriannwyr Arolygu⁵ wedi'u penodi. Mae cronfeydd eraill yn dal i gael eu harchwilio.

Penodi Peirianwyr Arolygu

Gydol y cyfnod adrodd, rydym wedi sicrhau bod Peiriannydd Arolygu wedi'i benodi ar gyfer pob cyforgronfa ddŵr fawr. Rydym wedi cadarnhau fod pob peiriannydd yn perthyn i'r panel peirianeg priodol, yn dilyn apwyntiad gan Defra ar ran Cymru a Lloegr ac argymhelliad Pwyllgor Cronfeydd Dŵr Sefydliad y Peiriannwyr Sifil.


Bu'n rhaid i ni benodi Peirianwyr Arolygu ar gyfer dwy gronfa ddŵr ar ran yr ymgymerydd gan ddefnyddio ein pwerau gorfodi. Yn yr achosion hyn, un ai nid oes berchennog neu rydym wedi methu canfod perchennog er gwaethaf chwilio'n ddyfal. Fel rhagofal ychwanegol ar y safleoedd hyn, rydym yn gofyn i swyddogion lleol gynnal rhestr o archwiliadau rheolaidd o'r safleoedd ac yn adrodd eu canfyddiadau wrth y Peirianwyr Arolygu.

Penodi Peirianwyr Archwilio⁶

Fel wrth benodi Peirianwyr Arolygu, rydym wedi derbyn a chadarnhau penodiad Peirianwyr Archwilio ar gyfer pob cronfa ddŵr y mae'n bryd ei harchwilio. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd un cronfa ddŵr yn dal heb ei harchwilio o fewn y cyfnod statudol ond cwblhawyd yr archwiliad cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Mesurau er Budd Diogelwch ⁷

Os bydd Peiriannydd Archwilio'n argymhell mesurau diogelwch ar ôl archwilio cronfeydd dŵr, rydym yn monitro eu gweithredu ac yn atgoffa ymgymerydd os na fydd y mesurau wedi'u cwblhau. Mewn un achos, roeddem ni o'r farn fod gofyn cyflwyno rhybudd i'r



⁵ Mae Peiriannwyr Adeiladu'n rhoi barn gymwys i'r ymgymerydd ac i ni ynghylch sut y mae'r gronfa'n ymddwyn. Efallai y bydd yn rhaid cynnal archwiliad llawn os cyfyd pryder ynghylch diogelwch cronfa ddŵr.

⁶ Mae Peirianwyr Archwilio'n cynnal archwiliadau statudol o dro i dro ac yn argymhell mesurau er budd diogelwch.

⁷ Mae'r Peiriannydd Archwilio'n argymhell Mesurau er Budd Diogelwch sydd yn gyfrifoldebau statudol y gallwn ni eu gorfodi

ymgymerwr yn gofyn iddo gwblhau'r gwaith. Ein hegwyddor yw canfod gwraidd yr achos pam nad yw mesurau er budd diogelwch yn cael eu cwblhau a chydbwyso hyn gyda'r perygl llifogydd a barn y Peiriannydd Archwilio.

Rhybuddion Gorfodi

Rydym yn cydnabod nad yw pob un o ofynion Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 mor berthnasol â'i gilydd i ddiogelwch y cyhoedd. Hefyd, ceir oedi dealladwy weithiau mewn gweithredu mesurau diogelwch, er enghraifft, cyfnodau hir o dywydd drwg ar safleoedd cronfeydd diarffordd. Rydym yn cydbwyso'r rhain gyda'r perygl llifogydd i'r boblogaeth i lawr yr afon. Pan fynegir rhesymau dilys dros oedi, byddwn yn gofyn am gadarnhad y peiriannydd archwilio o'r perygl yn gyffredinol.

Pan na fyddwn yn gallu argyhoeddi ymgymerywr i gyflawni eu dyletswyddau statudol mae gennym hawl i gyflwyno rhybuddion yn mynnu eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Bydd ein hymchwiliadau'n ystyried a achoswyd yr oedi gan ddiffyg gweithredu addas, prydlon, a pha mor bryderus ydym ni fod y perygl llifogydd wedi cynyddu.

Roedd y rhybuddion oedd yn dal mewn grym ynghylch y toriadau mwyaf cyffredin o'r gyfraith, sef penodi peirianwyr a chwblhau mesurau diogelwch⁸.

Cyn cyflwyno rhybudd, byddwn yn ysgrifennu at ymgymerywr i'w hysbysu ein bod yn ystyried gwneud hynny ac yn dangos beth sydd raid iddyn nhw ei wneud i osgoi hynny. Ers 1 Ebrill 2013, rydym wedi anfon tri o'r "Llythyrau Terfynol" hyn ac, mewn dau achos, roedd hynny'n ddigon i'r ymgymerywr wneud y gwaith heb i ni anfon rhybuddion gorfodi.

Rydym o'r farn fod cyn lleied o rybuddion wedi'u cyflwyno, a'r lefel uchel o gydymffurfiaid, yn dangos fod ein dulliau wedi annog ymgymerywr i gymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif.

O ran y 4% o gronfeydd lle nad yw ymgymerywr yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau, rydym yn cymryd cysur yn y ffaith fod naw o'r rhain yn cael eu monitro gan Beirianwyr Arolygu

Mwy o gydymffurfiaid Llai o orfodaeth

3 "Llythyr Terfynol Cyn Rhybudd"

9 Rhybudd Gorfodi a gydymffurfiwyd

1 Rhybudd Gorfodaeth newydd a gyflwynwyd

0 Erlyniad

96% Cydymffurfiaid cyffredinol â'r gyfraith

Cyfanswm y rhybuddion mewn grym ar ddiwedd y cyfnod adrodd



⁸ Mae'n arferol i Beiriannwyr Archwilio argymhell mesurau diogelwch un eu hadroddiadau. Nid ydym yn ystyried fod y rhain yn dangos nad yw ymgymerywr yn cydymffurfio â'r gyfraith oni bai na fydd y gwaith a argymhellir yn cael ei wneud o fewn y cyfnod a ddangosir.

sy'n chwilio am arwyddion o ddirywiad. Rydym yn herio hunanfodlonrwydd yr ychydig o ymgymerydd hyn ac yn eu hannog yn gyson i weithredu i ddatrys y problemau sy'n aros ac yn cydbwyso ein dyhead i gael 100% o gydymffurfiaid yn erbyn ein hegwyddor o reoleiddio yn seiliedig ar risg.


Nid ydym wedi ystyried fod gofyn cychwyn achosion troseddol ffurfiol yn erbyn unrhyw ymgymerydd ac mae ein gwaith ymgynghorol wedi canolbwyntio ar sicrhau fod yr ymgymerydd llai gwybodus yn deall ystod a gofynion y gyfraith.

3. Cronfeydd dŵr y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgwymerwr ar eu cyfer

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddwy swyddogaeth o dan y Ddeddf Cronfeydd Dŵr: perfformio dyletswyddau awdurdod gorfodi, a pherfformio dyletswyddau ymgwymerwr cronfeydd dŵr. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roeddem yn ymgwymerwr ar gyfer 26 o goforgronfeydd mawr, wedi'u hetifeddu oddi wrth bob un o'r cyrff blaenorol: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Yn ystod y cyfnod pontio o'r cyrff blaenorol i Cyfoeth Naturiol Cymru, a thrwy ein gwaith ymchwil, nododd ein tîm gorfodi diogelwch cronfeydd dŵr fod cronfeydd ym meddiant neu o dan reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n dod o dan y Ddeddf Cronfeydd Dŵr. Rydym wedi cymryd camau i dynnu hyn i sylw ein cydweithwyr yn swyddogaeth Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru a bu'n rhaid iddyn nhw weithio ar frys i sicrhau fod y cronfeydd yn cydymffurfio.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd pob cyforganfa ddŵr fawr wedi'u harchwilio a Pheirianwyr Arolygu wedi'u penodi. Rydym yn dal i ymchwilio i statws cronfeydd dŵr eraill a dan y Ddeddf bresennol a'r newidiadau y bwriedir eu gwneud iddi. Bydd ein tîm gorfodi'n dal i fonitro'n fanwl pob Mesur er Budd Diogelwch ar gronfeydd dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru.



4. Gwybodaeth a data

Yn ogystal â'n gwaith rheoleiddio, rydym wedi gwneud y gwaith canlynol ar gyfer rheoli cyforgronfeydd mawr yng Nghymru:

- Trosglwyddo gwybodaeth ynghylch cronfeydd dŵr Cymru o Asiantaeth yr Amgylchedd a datblygu ein systemau ein hunain i gadw'r wybodaeth yn ddiogel.
- Ymateb i ymholiadau mewnol ac allanol am wybodaeth ar ddiogelwch cronfeydd dŵr; er enghraifft, asesu cyfleoedd hamdden a mynediad i bobl anabl, darparu gwybodaeth ar safleoedd lle mae'r cyhoedd yn dangos llawer iawn o ddi-ddordeb a gwybodaeth i'w ddefnyddio mewn ymchwil i ddiogelwch cronfeydd.
- Ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio, tynnu dŵr a chynhyrchu trydan dŵr.
- Cynnal cofrestr o gyforgronfeydd mawr
- Creu a chynnal Cofrestr Ymateb Brys i'n helpu yn ein swyddogaeth fel ymatebydd brys Categori 1
- Datblygu perthynas waith gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar faterion traws ffiniol (mae yna 21 o gyforgronfeydd mawr y mae eu perygl llifogydd yn croesi ffin Cymru – Lloegr gyda 19 o'r rhain yng Nghymru ac yn cael eu rheoleiddio gennym ni).
- Cytuno gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Amddiffyn yr Amgylchedd yr Alban ac Asiantaeth Afonydd Gogledd Iwerddon y bydd adroddiadau digwyddiadau'n cael eu rhannu i'w hadolygu ar y cyd a fydd yn arwain at gasgliad ehangach o wybodaeth i nodi tueddiadau ac i ddysgu.
- Arsylwi a chymryd rhan mewn ymarferion Fforymau Cydnerthedd Lleol a pharatoi cyngor i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan
- Mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cronfeydd Dŵr⁹, swyddogaeth statudol Sefydliad y Peirianwyr Siartredig, o ran ein swyddogaeth ni fel awdurdod gorfodi ac i gynrychioli diddordebau ehangach Cymru ar ran Llywodraeth Cymru
- Cynrychioli Cymru ar Fforwm Rheoleiddwyr Cronfeydd Dŵr Ewrop
- Cyfrannu at brosiectau ymchwil a datblygu, sy'n cael eu llywio gan y Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Cronfeydd Dŵr - casgliad o swyddogaethau diwydiant, academia a llywodraeth
- Datblygu'r perthynasau gwaith ehangach hyn er mwyn sicrhau nad ydym yn datblygu dulliau o sicrhau diogelwch cronfeydd dŵr ar ein pen ein hunain ond gan gysylltu ar sawl lefel i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella ein gwasanaeth.

⁹ Y Pwyllgor Cronfeydd Dŵr sy'n gosod safonau ar gyfer y gwahanol baneli o beiriannwyr ac yn penodi ar y paneli hynny. Mae'n cyflwyno argymhellion i Defra ar benodi periannwyr ar y gwahanol baneli.

5. Y ddwy flynedd nesaf

Rydym yn rhagweld y bydd y newidiadau a ddisgwylir¹⁰ i Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn arwain at gyfnod prysur wrth weithredu'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Rydym yn rhagweld mai'r prif newidiadau, ymysg eraill, fydd:

- Gostwng y trothwy maint ar gyfer rheoleiddio i 10,000 metr giwbig
- Ein galluogi ni i ddynodi cyfgronfeydd mawr yn rhai risg uchel, neu ddim. Bydd ymgymrwyr y cronfeydd nad ydym ni'n eu hystyried yn risg uchel yn cael eu rhyddhau o ofynion arolygu ac archwilio'r ddeddf.

Rydym yn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft:

1. Rydym yn adolygu'r wybodaeth sydd yn ein cofnodion, astudiaethau mapiau, dogfennau cronfeydd dŵr ac ymweliadau safle i nodi'r cronfeydd dŵr ychwanegol a allai ddod o dan y rheoliadau newydd.
2. Er mwyn paratoi ar gyfer penderfynu pa gofgronfeydd mawr a allai fod yn risg uchel, rydym wedi adolygu'r manylebau ar gyfer paratoi mapiau llifogydd cronfeydd dŵr. Byddwn yn defnyddio'r manylebion hynny i ddarparu mapiau llifogydd newydd a fydd yn dangos pobl ac eiddo mewn perygl pe byddai dŵr yn cael ei ollwng heb ei reoli. Y disgwyl yw y byddwn yn defnyddio'r manylebion hyn i baratoi mapiau llifogydd ar gyfer pob cronfa ddŵr a fydd yn cael ei chofrestru o'r newydd.
3. Mae mwy na 200 o gronfeydd dŵr wedi'u cofrestru ar hyn o bryd ac y mae gennym ni adroddiadau peirianyddol a mapiau llifogydd ar eu cyfer. Rydym wedi dechrau adolygu'r wybodaeth ynghylch y cronfeydd dŵr hyn ac yn ei ddefnyddio i gynllunio gweithredu'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn effeithiol ac yn seiliedig ar risg.
4. Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol a chodi ymwybyddiaeth o'r newidiadau sydd ar y gorwel.

“Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru wedi datblygu perthynas waith bositif, agored ac adeiladol. Rydym yn ystyried hyn yn hynod bwysig gan fod rheolaeth ein hargaeau a'n cronfeydd dŵr yn fater o ddiogelwch cyhoeddus a, thrwy gydweithio fel hyn, mae'n rhoi sicrwydd i'r awdurdod gofodi ac i'r cymunedau i lawr yr afon o'r cronfeydd. Rydym yn edrych ymlaen at adeiladu ar hyn wrth gydweithio yn y dyfodol a byddwn yn dal i chwilio am gyfleoedd i wella rheolaeth cronfeydd dŵr yn barhaus er budd diogelwch y cyhoedd yng Nghymru”.

Tracey Williamson
Rheolwr Diogelwch Cronfeydd Dŵr, Dŵr Cymru Welsh Water

¹⁰ Cyflwynwyd gan Atodlen 4 (Cronfeydd Dŵr) y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Gydol cyfnod dwy flynedd yr adroddiad hwn, mae ein tîm bychan o 2.5 o bobl wedi, yn gynyddol, sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru fel yr awdurdod gorfodi yng Nghymru ac rydym yn gallu adrodd yn hyderus fod dyletswyddau Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'u trosglwyddo'n llyfn ac y cynhaliwyd lefel uchel o gydymffurfiaid ac, felly, o sicrwydd diogelwch y cyhoedd.

Mae'r cyhoedd yng Nghymru wedi elwa o newid rheoleiddiwr, yn enwedig o'r sylw sy'n cael ei roi ar lefel Cymru gyfan. Dangosir hyn gan y cronfeydd dŵr sy'n cael eu cofrestru nad oedd yn cael eu rheoleiddio o'r blaen ac a allai fod yn beryglus. Mae gwell gwybodaeth leol, cylch gwaith ehangach Cyfoeth Naturiol Cymru ac agwedd ystwyth y tîm gorfodi oll wedi'n helpu i ddatblygu ein gwasanaeth. Bydd yr agwedd hon yn dal i'n helpu wrth i ni symud at reoleiddio cronfeydd dŵr llai ac at y broses o ddynodi risg.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Newport Road
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun - Gwener, 8am - 6pm)

enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gwellir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru